



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2023 Rhif 47 (Cy. 6)

2023 No. 47 (W. 6)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

COUNCIL TAX, WALES

Rheoliadau Cynlluniau
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
(Gofynion Rhagnodedig a'r
Cynllun Diofyn) (Cymru)
(Diwygio) 2023

The Council Tax Reduction
Schemes (Prescribed Requirements
and Default Scheme) (Wales)
(Amendment) Regulations 2023

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 ("y Rheoliadau Cynllun Diofyn") a wnaed o dan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992"), ac Atodlen 1B iddi.

These Regulations amend the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013 ("the Prescribed Requirements Regulations") and the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013 ("the Default Scheme Regulations") made under section 13A(4) and (5) of, and Schedule 1B to, the Local Government Finance Act 1992 ("the 1992 Act").

Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod bilio yng Nghymru wneud cynllun sy'n pennu'r gostyngiadau a gymhwysir i'r symiau o'r dreth gyngor sy'n daladwy gan bersonau, neu ddosbarthiadau o bersonau, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod mewn angen ariannol. Mae'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig hefyd yn nodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn cynllun o'r fath.

The Prescribed Requirements Regulations require each billing authority in Wales to make a scheme specifying the reductions that are to apply to amounts of council tax payable by persons, or classes of persons, whom the authority considers are in financial need. The Prescribed Requirements Regulations also set out the matters that must be included in such a scheme.

Mae'r Rheoliadau Cynllun Diofyn yn nodi cynllun a fydd yn cael effaith, mewn cysylltiad ag anheddau sydd wedi eu lleoli yn ardal awdurdod bilio, os yw'r awdurdod yn methu â gwneud ei gynllun ei hun.

The Default Scheme Regulations set out a scheme that will take effect, in respect of dwellings situated in the area of a billing authority, if the authority fails to make its own scheme.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig a'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

These Regulations amend the Prescribed Requirements Regulations and the Default Scheme Regulations.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r diffiniad o "annibynnydd" yn y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig fel bod rhaid i berson y rhoddwyd caniatâd iddo iddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, neu y rhoddwyd hawl iddo i breswyllo yn y Deyrnas Unedig, a adawodd Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia ac sy'n preswyllo gyda cheisydd o dan y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin, gael ei drin fel person sy'n ddibynnol ar y ceisydd i gyfrifo hawlogaeth i ddisgownt o ran y dreth gyngor. Mae rheoliad 11 yn gwneud yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae rheoliad 4 yn mewnosod categori newydd yn y rhestr o bersonau nad ydynt i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr at ddiben y meini prawf preswyllo a nodir yn rheoliad 28 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Mae'r categori newydd yn ymwneud â phersonau y rhoddir caniatâd iddynt i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan reolau mewnfudo, neu bersonau sydd â hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig, pan fo'r person hwnnw yn preswyllo yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022 a'i fod wedi gadael Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022. Effaith y diwygiad yw sicrhau nad yw'r personau hynny yn cael eu trin fel rhai nad ydynt yn preswyllo fel arfer ym Mhrydain Fawr i benderfynu cymhwysra ceisydd am ostyngiad o ran y dreth gyngor. Mae rheoliad 12 yn gwneud yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae rheoliad 5 yn diwygio rheoliad 29 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig sy'n pennu bod personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo yn ddosbarth o bersonau a ragnodir at ddibenion paragraff 3(1)(b) o Atodlen 1B i Ddeddf 1992 ac ni chaniateir eu cynnwys yng nghynllun awdurdod bilio. Mae'r diwygiad yn dileu'r eithriad nad yw person sy'n wladolyn o wladwriaeth sydd wedi cadarnhau y Confensiwn Ewropeaidd ar Gymorth Cymdeithasol a Meddygol neu wladwriaeth sydd wedi cadarnhau Siarter Gymdeithasol Cyngor Ewrop ac sy'n bresennol yn gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig yn cael ei drin fel person sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo. Mae rheoliad 13 yn gwneud yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Mae'r diwygiadau a wneir i'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig gan reoliadau 6 i 9 yn uwchraddio ffigurau penodol a ddefnyddir i gyfrifo a gaiff person hawlio gostyngiad, ac os felly, swm y gostyngiad hwnnw. Mae'r ffigurau uwchraddedig yn gymwys i ddidyniadau annibynnyddion (addasiadau a wneir i uchafswm y gostyngiad y gall person ei gael gan ystyried oedolion sy'n byw yn yr annedd nad ydynt yn ddibynnyddion y ceisydd) a'r swm cymwysadwy (y swm y cymherir incwm ceisydd ag ef er mwyn

Regulation 3 amends the definition of "non-dependant" in the Prescribed Requirements Regulations so that a person who has leave to enter or remain in, or a right of abode in, the United Kingdom, who left Ukraine in connection with the Russian invasion and who resides with an applicant under the Homes for Ukraine Sponsorship Scheme, must be treated as dependent on the applicant for the purpose of calculating entitlement to a council tax discount. The same amendment is made to the Default Scheme Regulations by regulation 11.

Regulation 4 inserts a new category into the list of persons who are not to be treated as not being in Great Britain for the purpose of the residence criteria set out in regulation 28 of the Prescribed Requirements Regulations. The new category relates to persons to whom leave is granted under immigration rules, or who have a right of abode in the United Kingdom, where that person was residing in Ukraine immediately before 1 January 2022 and who left Ukraine in connection with the Russian invasion which took place on 24 February 2022. The effect of the amendment is to ensure those persons are not treated as not being habitually resident in Great Britain for the purpose of determining an applicant's eligibility for a council tax reduction. The same amendment is made to the Default Scheme Regulations by regulation 12.

Regulation 5 amends regulation 29 of the Prescribed Requirements Regulations which specifies that persons subject to immigration control are a class of person prescribed for the purposes of paragraph 3(1)(b) of Schedule 1B to the 1992 Act and must not be included in a billing authority's scheme. The amendment removes the exception that a person who is a national of a state which has ratified the European Convention on Social and Medical Assistance or a state which has ratified the Council of Europe Social Charter and who is lawfully present in the United Kingdom is not treated as a person subject to immigration control. The same amendment is made to the Default Scheme Regulations by regulation 13.

The amendments made to the Prescribed Requirements Regulations by regulations 6 to 9 uprate certain figures used to calculate whether a person is entitled to a reduction, and if so, the amount of that reduction. The uprated figures apply to non-dependant deductions (adjustments made to the maximum amount of a reduction that a person can receive taking into account adults living in the dwelling who are not the applicant's dependants) and the applicable amount (the amount against which an applicant's income is

penderfynu swm y gostyngiad, os oes un, y gall fod modd i'r ceisydd ei gael). Mae nifer o ffigurau eraill hefyd yn cael eu huwchraddio i adlewyrchu newidiadau i hawlogaethau amrywiol eraill. Mae rheoliadau 14 i 16 yn gwneud yr un diwygiad i'r Rheoliadau Cynllun Diofyn. Mae rheoliad 15 hefyd yn cywiro gwall teipograffyddol yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau Cynllun Diofyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi'i gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

compared to determine the reduction, if any, which the applicant may be entitled to receive). A number of other figures are also updated to reflect changes to various other entitlements. The same amendments are made to the Default Scheme Regulations by regulations 14 to 16. Regulation 15 also corrects a typographical error in the Welsh text of the Default Scheme Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Local Government Finance Reform, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2023 Rhif 47 (Cy. 6)

2023 No. 47 (W. 6)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

COUNCIL TAX, WALES

Rheoliadau Cynlluniau
Gostyngiadau'r Dreth Gyngor
(Gofynion Rhagnodedig a'r
Cynllun Diofyn) (Cymru)
(Diwygio) 2023

The Council Tax Reduction
Schemes (Prescribed Requirements
and Default Scheme) (Wales)
(Amendment) Regulations 2023

Gwnaed 18 Ionawr 2023
Yn dod i rym 20 Ionawr 2023

Made 18 January 2023
Coming into force 20 January 2023

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 13A(4) a (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(1), a pharagraffau 2 i 6 o Atodlen 1B iddi.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon them by section 13A(4) and (5) of, and paragraphs 2 to 6 of Schedule 1B to, the Local Government Finance Act 1992(1).

Yn unol ag adran 13A(8) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(2).

In accordance with section 13A(8) of that Act, a draft of this instrument has been laid before and approved by resolution of Senedd Cymru(2).

Enwi, cychwyn a dehongli

Title, commencement and interpretation

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023.

1.—(1) The title of these Regulations is the Council Tax Reduction Schemes (Prescribed Requirements and Default Scheme) (Wales) (Amendment) Regulations 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 20 Ionawr 2023.

(2) These Regulations come into force on 20 January 2023.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynllun gostyngiadau'r dreth gyngor a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny.

(3) These Regulations apply in relation to a council tax reduction scheme made for a financial year beginning on or after 1 April 2023.

(1) 1992 p. 14. Amnewidiwyd adran 13A gan adran 10(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17). Mewnosodwyd Atodlen 1B gan adran 10(2) o'r Ddeddf honno, a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddi. Gweler adran 116(1) o Ddeddf 1992 am y diffiniad o "prescribed".

(1) 1992 c. 14. Section 13A was substituted by section 10(1) of the Local Government Finance Act 2012 (c. 17). Schedule 1B was inserted by section 10(2) of, and paragraph 1 of Schedule 4 to, that Act. See section 116(1) of the 1992 Act for the definition of "prescribed".

(2) Mae'r cyfeiriad yn adran 13A(8) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fel y'i diwygiwyd gan adran 9 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1), a pharagraff 2(7)(c) o Atodlen 1 iddi.

(2) The reference in section 13A(8) to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32), as amended by section 9 of, and paragraph 2(7)(c) of Schedule 1 to, the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “awdurdod bilio” yr ystyr a roddir i “billing authority” yn adran 1(2)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (“Deddf 1992”);

ystyr “cynllun gostyngiadau’r dreth gyngor” (“*council tax reduction scheme*”) yw cynllun a wneir gan awdurdod bilio yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013(1), neu’r cynllun sy’n gymwys yn ddiodyf yn rhinwedd paragraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf 1992.

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013

2. Mae Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 9.

3.—(1) Mae rheoliad 9 (annibynyddion) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ar ôl paragraff (2)(f) mewnosoder—

“(g) person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan y rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(2), neu y tu allan i’r rheolau hynny, neu sydd â hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig, o fewn ystyr adran 2(3) o’r Ddeddf honno, pan fo’r person—

(i) yn preswyllo yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022;

(ii) wedi gadael Wcráin mewn cysylltiad â’r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022; a

(iii) yn preswyllo gyda’r ceisydd mewn cysylltiad â’r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin(4).”

(4) In these Regulations—

“billing authority” (“*awdurdod bilio*”) has the meaning given in section 1(2)(b) of the Local Government Finance Act 1992 (“the 1992 Act”);

“council tax reduction scheme” (“*cynllun gostyngiadau’r dreth gyngor*”) means a scheme made by a billing authority in accordance with the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013(1), or the scheme that applies in default by virtue of paragraph 6(1)(e) of Schedule 1B to the 1992 Act.

Amendments to the Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013

2. The Council Tax Reduction Schemes and Prescribed Requirements (Wales) Regulations 2013 are amended in accordance with regulations 3 to 9.

3.—(1) Regulation 9 (non-dependants) is amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) After paragraph (2)(f) insert—

“(g) a person who has been granted leave to enter or remain in the United Kingdom under or outside the immigration rules made under section 3(2) of the Immigration Act 1971(2) or has a right of abode in the United Kingdom, within the meaning of section 2(3) of that Act, where the person—

(i) was residing in Ukraine immediately before 1 January 2022;

(ii) left Ukraine in connection with the Russian invasion which took place on 24 February 2022; and

(iii) is residing with the applicant in connection with the Homes for Ukraine Sponsorship Scheme(4).”

(1) O.S. 2013/3029 (Cy. 301), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5), O.S. 2020/16 (Cy. 2), O.S. 2021/34 (Cy. 9) ac O.S. 2022/51 (Cy. 19).

(2) 1971 p. 77.

(3) Amnewidiwyd adran 2 gan adran 39(2) o Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61) ac fe’i diwygiwyd gan O.S. 2019/745.

(4) <https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme>. Gosodir y Rheolau Mewnfudo o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971 (p. 77). Mae’r rheolau mewn perthynas â’r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin wedi eu nodi yn UKR 11.1 i UKR 20.2 o’r atodiad. Mae “permission to enter” a “permission to stay” wedi eu diffinio yn rheol 6.2 o Gyflwyniad y Rheolau Mewnfudo (<https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-introduction#intro6>).

(1) S.I. 2013/3029 (W. 301), amended by S.I. 2014/66 (W. 6), S.I. 2014/825 (W. 83), S.I. 2015/44 (W. 3), S.I. 2015/971, S.I. 2016/50 (W. 21), S.I. 2017/46 (W. 20), S.I. 2018/14 (W. 7), S.I. 2019/11 (W. 5), S.I. 2020/16 (W. 2), S.I. 2021/34 (W. 9) and S.I. 2022/51 (W. 19).

(2) 1971 c. 77.

(3) Section 2 was substituted by section 39(2) of the British Nationality Act 1981 (c. 61) and amended by S.I. 2019/745.

(4) <https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-appendix-ukraine-scheme>. The Immigration Rules are laid under section 3(2) of the Immigration Act 1971 (c. 77). The rules in relation to the Homes for Ukraine Sponsorship Scheme are set out at UKR 11.1 to UKR 20.2 of the appendix. “Permission to enter” and “permission to stay” are defined in rule 6.2 of the Immigration Rules: Introduction (<https://www.gov.uk/guidance/immigration-rules/immigration-rules-introduction#intro6>).

(3) ym mharagraff (3) yn lle “2(a) i (c) ac (f)” rhodder “2(a) i (c), (f) ac (g)”.

4.—(1) Mae rheoliad 28(5) (personau sydd i’w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Ar ôl is-baragraff (m)(ii), hepgorer “neu”.

(3) Ar ddiwedd is-baragraff (n), yn lle “.” rhodder “; neu”.

(4) Ar ôl is-baragraff (n) mewnosoder—

“(o) yn berson ym Mhrydain Fawr a oedd yn preswyllo yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022, a adawodd Wcráin mewn cysylltiad â’r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022 ac—

(i) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol â’r rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971; neu

(ii) sydd â hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 2 o’r Ddeddf honno.”

5.—(1) Mae rheoliad 29 (personau sy’n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ym mharagraff (1) yn lle “Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae’r” rhodder “Mae’r”.

(3) Hepgorer paragraff (2).

6. Yn Atodlen 1 (penderfynu cymhwystra am ostyngiad: pensïynwyr), ym mharagraff 3 (didyniadau annibynyddion: pensïynwyr)—

(a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “£15.95” rhodder “£16.40”;

(b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle “£5.30” rhodder “£5.45”;

(c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “£224.00” rhodder “£236.00”;

(d) yn is-baragraff (2)(b), yn lle “£224.00”, “£389.00” a “£10.60” rhodder “£236.00”, “£410.00” a “£10.90” yn y drefn honno;

(e) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “£389.00”, “£484.00” ac “£13.35” rhodder “£410.00”, “£511.00” ac “£13.70” yn y drefn honno.

7. Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensïynwyr)—

(a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfans personol)—

(3) in paragraph (3) for “2(a) to (c) and (f)” substitute “2(a) to (c), (f) and (g)”.

4.—(1) Regulation 28(5) (persons treated as not being in Great Britain) is amended in accordance with paragraphs (2) to (4).

(2) After sub-paragraph (m)(ii), omit “or”.

(3) At the end of sub-paragraph (n), for “.” substitute “; or”.

(4) After sub-paragraph (n) insert—

“(o) a person in Great Britain who was residing in Ukraine immediately before 1 January 2022, left Ukraine in connection with the Russian invasion which took place on 24 February 2022 and—

(i) has been granted leave to enter or remain in the United Kingdom in accordance with immigration rules made under section 3(2) of the Immigration Act 1971; or

(ii) has a right of abode in the United Kingdom within the meaning given in section 2 of that Act.”

5.—(1) Regulation 29 (persons subject to immigration control) is amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) In paragraph (1) for “Subject to paragraph (2), the” substitute “The”.

(3) Omit paragraph (2).

6. In Schedule 1 (determining eligibility for a reduction: pensioners), in paragraph 3 (non-dependant deductions: pensioners)—

(a) in sub-paragraph (1)(a), for “£15.95” substitute “£16.40”;

(b) in sub-paragraph (1)(b), for “£5.30” substitute “£5.45”;

(c) in sub-paragraph (2)(a), for “£224.00” substitute “£236.00”;

(d) in sub-paragraph (2)(b), for “£224.00”, “£389.00” and “£10.60” substitute “£236.00”, “£410.00” and “£10.90” respectively;

(e) in sub-paragraph (2)(c), for “£389.00”, “£484.00” and “£13.35” substitute “£410.00”, “£511.00” and “£13.70” respectively.

7. In Schedule 2 (applicable amounts: pensioners)—

(a) in column (2) of the Table in paragraph 1 (personal allowance)—

- (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£197.10” rhodder “£217.00”;
- (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£294.90” rhodder “£324.70”;
- (iii) yn is-baragraff (3) yn lle “£294.90” a “£97.80” rhodder “£324.70” a “£107.70” yn y drefn honno;
- (b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 2(1) (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle “£70.80”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£77.78”;
- (c) ym mharagraff 3 (premiwm teulu), yn lle “£17.85” rhodder “£18.53”;
- (d) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “£69.40”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£76.40” ac yn lle “£138.80” rhodder “£152.80”;
 - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£27.44” rhodder “£30.17”;
 - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£68.04” rhodder “£74.69”;
 - (iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£38.85” rhodder “£42.75”.

8. Yn Atodlen 6 (penderfynu cymhwysra am ostyngiad: personau nad ydynt yn bensynwyr), ym mharagraff 5 (didyniadau annibynyddion: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “£15.95” rhodder “£16.40”;
- (b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle “£5.30” rhodder “£5.45”;
- (c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “£224.00” rhodder “£236.00”;
- (d) yn is-baragraff (2)(b), yn lle “£224.00”, “£389.00” a “£10.60” rhodder “£236.00”, “£410.00” a “£10.90” yn y drefn honno;
- (e) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “£389.00”, “£484.00” ac “£13.35” rhodder “£410.00”, “£511.00” ac “£13.70” yn y drefn honno.

9. Yn Atodlen 7 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “£82.10”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£90.40” ac yn lle “£65.00” rhodder “£71.55”;

- (i) in sub-paragraph (1) for “£197.10” substitute “£217.00”;
- (ii) in sub-paragraph (2) for “£294.90” substitute “£324.70”;
- (iii) in sub-paragraph (3) for “£294.90” and “£97.80” substitute “£324.70” and “£107.70” respectively;
- (b) in column (2) of the Table in paragraph 2(1) (child or young person amounts), for “£70.80”, in both places it occurs, substitute “£77.78”;
- (c) in paragraph 3 (family premium), for “£17.85” substitute “£18.53”;
- (d) in the Table in Part 4 (amounts of premium specified in Part 3), in the second column—
 - (i) in sub-paragraph (1), for “£69.40”, in both places it occurs, substitute “£76.40” and for “£138.80” substitute “£152.80”;
 - (ii) in sub-paragraph (2), for “£27.44” substitute “£30.17”;
 - (iii) in sub-paragraph (3), for “£68.04” substitute “£74.69”;
 - (iv) in sub-paragraph (4), for “£38.85” substitute “£42.75”.

8. In Schedule 6 (determining eligibility for a reduction: persons who are not pensioners), in paragraph 5 (non-dependant deductions: persons who are not pensioners)—

- (a) in sub-paragraph (1)(a), for “£15.95” substitute “£16.40”;
- (b) in sub-paragraph (1)(b), for “£5.30” substitute “£5.45”;
- (c) in sub-paragraph (2)(a), for “£224.00” substitute “£236.00”;
- (d) in sub-paragraph (2)(b), for “£224.00”, “£389.00” and “£10.60” substitute “£236.00”, “£410.00” and “£10.90” respectively;
- (e) in sub-paragraph (2)(c), for “£389.00”, “£484.00” and “£13.35” substitute “£410.00”, “£511.00” and “£13.70” respectively.

9. In Schedule 7 (applicable amounts: persons who are not pensioners)—

- (a) in column (2) of the Table in paragraph 1 (personal allowances)—
 - (i) in sub-paragraph (1), for “£82.10”, in both places it occurs, substitute “£90.40” and for “£65.00” substitute “£71.55”;

- | | |
|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£82.10” rhodder “£90.40”; (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£128.95” rhodder “£141.95”; (b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 3(1), yn lle “£70.80”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£77.78”; (c) ym mharagraff 4(1)(b) (premiwm teulu), yn lle “£17.85” rhodder “£18.53”; (d) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn— <ul style="list-style-type: none"> (i) yn is-baragraff (1), yn lle “£36.20” a “£51.60” rhodder “£39.85” a “£56.80” yn y drefn honno; (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£69.40”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£76.40” ac yn lle “£138.80” rhodder “£152.80”; (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£68.04” rhodder “£74.69”; (iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£38.85” rhodder “£42.75”; (v) yn is-baragraff (5), yn lle “£27.44”, “£17.75” a “£25.35” rhodder “£30.17”, “£19.55” a “£27.90” yn y drefn honno; (e) yn Rhan 6 (symiau’r elfennau)— <ul style="list-style-type: none"> (i) ym mharagraff 23, yn lle “£30.60” rhodder “£33.70”; (ii) ym mharagraff 24, yn lle “£40.60” rhodder “£44.70”. | <ul style="list-style-type: none"> (ii) in sub-paragraph (2), for “£82.10” substitute “£90.40”; (iii) in sub-paragraph (3), for “£128.95” substitute “£141.95”; (b) in column (2) of the Table in paragraph 3(1), for “£70.80”, in both places it occurs, substitute “£77.78”; (c) in paragraph 4(1)(b) (family premium), for “£17.85” substitute “£18.53”; (d) in the Table in Part 4 (amounts of premiums specified in Part 3), in the second column— <ul style="list-style-type: none"> (i) in sub-paragraph (1), for “£36.20” and “£51.60” substitute “£39.85” and “£56.80” respectively; (ii) in sub-paragraph (2), for “£69.40”, in both places it occurs, substitute “£76.40” and for “£138.80” substitute “£152.80”; (iii) in sub-paragraph (3), for “£68.04” substitute “£74.69”; (iv) in sub-paragraph (4), for “£38.85” substitute “£42.75”; (v) in sub-paragraph (5), for “£27.44”, “£17.75” and “£25.35” substitute “£30.17”, “£19.55” and “£27.90” respectively; (e) in Part 6 (amount of components)— <ul style="list-style-type: none"> (i) in paragraph 23, for “£30.60” substitute “£33.70”; (ii) in paragraph 24, for “£40.60” substitute “£44.70”. |
|---|---|

Diwygio Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013

10. Mae’r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau’r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013(1) wedi ei ddiwygio yn unol â rheoliadau 11 i 16.

11.—(1) Mae paragraff 9 (annibynyddion) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ar ôl is-baragraff (2)(f) mewnosoder—

“(g) unrhyw berson y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan y rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o

Amendments to the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013

10. The scheme set out in the Schedule to the Council Tax Reduction Schemes (Default Scheme) (Wales) Regulations 2013(1) is amended in accordance with regulations 11 to 16.

11.—(1) Paragraph 9 (non-dependants) is amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) After sub-paragraph (2)(f) insert—

“(g) any person who has been granted leave to enter or remain in the United Kingdom under or outside the immigration rules made under section

(1) O.S. 2013/3035 (Cy. 303), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/66 (Cy. 6), O.S. 2014/825 (Cy. 83), O.S. 2015/44 (Cy. 3), O.S. 2015/971, O.S. 2016/50 (Cy. 21), O.S. 2017/46 (Cy. 20), O.S. 2018/14 (Cy. 7), O.S. 2019/11 (Cy. 5), O.S. 2020/16 (Cy. 2), O.S. 2021/34 (Cy. 9) ac O.S. 2022/51 (Cy. 19).

(1) S.I. 2013/3035 (W. 303), amended by S.I. 2014/66 (W. 6), S.I. 2014/825 (W. 83), S.I. 2015/44 (W. 3), S.I. 2015/971, S.I. 2016/50 (W. 21), S.I. 2017/46 (W. 20), S.I. 2018/14 (W. 7), S.I. 2019/11 (W. 5), S.I. 2020/16 (W. 2), S.I. 2021/34 (W. 9) and S.I. 2022/51 (W. 19).

Ddeddf Mewnfudo 1971, neu y tu allan i'r rheolau hynny, neu sydd â hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig, o fewn ystyr adran 2 o'r Ddeddf honno, pan fo'r person—

- (i) yn preswyllo yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022;
- (ii) wedi gadael Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022; a
- (iii) yn preswyllo gyda'r ceisydd mewn cysylltiad â'r Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin.”

(3) yn is-baragraff (3) yn lle “2(a) i (c) ac (f)” rhodder “2(a) i (c), (f) ac (g)”.

12.—(1) Mae paragraff 19(5) (personau sydd i'w trin fel rhai nad ydynt ym Mhrydain Fawr) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Ar ôl paragraff (m)(ii), hepgorer “neu”.

(3) Ar ddiwedd paragraff (n), yn lle “.” rhodder “; neu”.

(4) Ar ôl paragraff (n) mewnosoder—

“(o) yn berson ym Mhrydain Fawr a oedd yn preswyllo yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022, a adawodd Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022 ac—

- (i) y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi yn unol â'r rheolau mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971 neu
- (ii) sydd â hawl i breswyllo yn y Deyrnas Unedig o fewn yr ystyr a roddir yn adran 2 o'r Ddeddf honno.”

13.—(1) Mae paragraff 20 (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo) wedi ei ddiwygio yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Yn is-baragraff (1) yn lle “Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nid” rhodder “Nid”.

(3) Hefgorer is-baragraff (2).

14. Ym mharagraff 28 (didyniadau annibynyddion: pensïynwyr a personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yn is-baragraff (1)(a), yn lle “£15.95” rhodder “£16.40”;
- (b) yn is-baragraff (1)(b), yn lle “£5.30” rhodder “£5.45”;

3(2) of the Immigration Act 1971 or has a right of abode in the United Kingdom, within the meaning of section 2 of that Act, where the person—

- (i) was residing in Ukraine immediately before 1 January 2022;
- (ii) left Ukraine in connection with the Russian invasion which took place on 24 February 2022; and
- (iii) is residing with the applicant in connection with the Homes for Ukraine Sponsorship Scheme.”

(3) in sub-paragraph (3) for “2(a) to (c) and (f)” substitute “2(a) to (c), (f) and (g)”.

12.—(1) Paragraph 19(5) (persons treated as not being in Great Britain) is amended in accordance with paragraphs (2) to (4).

(2) After paragraph (m)(ii), omit “or”.

(3) At the end of paragraph (n), for “.” substitute “; or”.

(4) After paragraph (n) insert—

“(o) a person in Great Britain who was residing in Ukraine immediately before 1 January 2022, left Ukraine in connection with the Russian invasion which took place on 24 February 2022 and—

- (i) has been granted leave to enter or remain in the United Kingdom in accordance with immigration rules made under section 3(2) of the Immigration Act 1971 or
- (ii) has a right of abode in the United Kingdom within the meaning given in section 2 of that Act.”

13.—(1) Paragraph 20 (persons subject to immigration control) is amended in accordance with paragraphs (2) and (3).

(2) In sub-paragraph (1) for “Subject to sub-paragraph (2), persons” substitute “Persons”.

(3) Omit sub-paragraph (2).

14. In paragraph 28 (non-dependant deductions: pensioners and persons who are not pensioners)—

- (a) in sub-paragraph (1)(a), for “£15.95” substitute “£16.40”;
- (b) in sub-paragraph (1)(b), for “£5.30” substitute “£5.45”;

- (c) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “£224.00” rhodder “£236.00”;
- (d) yn is-baragraff (2)(b), yn lle “£224.00”, “£389.00” a “£10.60” rhodder “£236.00”, “£410.00” a “£10.90” yn y drefn honno;
- (e) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “£389.00”, “£484.00” ac “£13.35” rhodder “£410.00”, “£511.00” ac “£13.70” yn y drefn honno.

15. Yn Atodlen 2 (symiau cymwysadwy: pensiynewyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1) yn lle “£197.10” rhodder “£217.00”;
 - (ii) yn is-baragraff (2) yn lle “£294.90” rhodder “£324.70”;
 - (iii) yn is-baragraff (3) o’r testun Saesneg, yn lle “£294.90” a “£97.80” rhodder “£324.70” a “£107.70” yn y drefn honno;
 - (iv) yn is-baragraff (3) o’r testun Cymraeg, yn lle “£294.90” a “£97.90” rhodder “£324.70” a “£107.70” yn y drefn honno;
- (b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 2(1) (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle “£70.80”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£77.78”;
- (c) ym mharagraff 3 (premiwm teulu), yn lle “£17.85” rhodder “£18.53”;
- (d) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “£69.40” yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£76.40” ac yn lle “£138.80” rhodder “£152.80”;
 - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£27.44” rhodder “£30.17”;
 - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£68.04” rhodder “£74.69”;
 - (iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£38.85” rhodder “£42.75”.

16. Yn Atodlen 3 (symiau cymwysadwy: personau nad ydynt yn bensiynwyr)—

- (a) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 1 (lwfansau personol)—
 - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “£82.10”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£90.40” ac yn lle “£65.00” rhodder “£71.55”;
 - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£82.10” rhodder “£90.40”;

- (c) in sub-paragraph (2)(a), for “£224.00” substitute “£236.00”;
- (d) in sub-paragraph (2)(b), for “£224.00”, “£389.00” and “£10.60” substitute “£236.00”, “£410.00” and “£10.90” respectively;
- (e) in sub-paragraph (2)(c), for “£389.00”, “£484.00” and “£13.35” substitute “£410.00”, “£511.00” and “£13.70” respectively.

15. In Schedule 2 (applicable amounts: pensioners)—

- (a) in column (2) of the Table in paragraph 1 (personal allowances)—
 - (i) in sub-paragraph (1) for “£197.10” substitute “£217.00”;
 - (ii) in sub-paragraph (2) for “£294.90” substitute “£324.70”;
 - (iii) in sub-paragraph (3) of the English text for “£294.90” and “£97.80” substitute “£324.70” and “£107.70” respectively;
 - (iv) in sub-paragraph (3) of the Welsh text for “£294.90” and “£97.90” substitute “£324.70” and “£107.70” respectively;
- (b) in column (2) of the Table in paragraph 2(1) (child or young person amounts), for “£70.80”, in both places it occurs, substitute “£77.78”;
- (c) in paragraph 3 (family premium), for “£17.85” substitute “£18.53”;
- (d) in the Table in Part 4 (amounts of premium specified in Part 3), in the second column—
 - (i) in sub-paragraph (1), for “£69.40” in both places it occurs, substitute “£76.40” and for “£138.80” substitute “£152.80”;
 - (ii) in sub-paragraph (2), for “£27.44” substitute “£30.17”;
 - (iii) in sub-paragraph (3), for “£68.04” substitute “£74.69”;
 - (iv) in sub-paragraph (4), for “£38.85” substitute “£42.75”.

16. In Schedule 3 (applicable amounts: persons who are not pensioners)—

- (a) in column (2) of the Table in paragraph 1 (personal allowances)—
 - (i) in sub-paragraph (1), for “£82.10”, in both places it occurs, substitute “£90.40” and for “£65.00” substitute “£71.55”;
 - (ii) in sub-paragraph (2), for “£82.10” substitute “£90.40”;

- (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£128.95” rhodder “£141.95”;
 - (b) yng ngholofn (2) o’r Tabl ym mharagraff 3(1) (symiau plentyn neu berson ifanc), yn lle “£70.80”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£77.78”;
 - (c) ym mharagraff 4(1)(b) (premiwm teulu), yn lle “£17.85” rhodder “£18.53”;
 - (d) yn y Tabl yn Rhan 4 (symiau’r premiymau a bennir yn Rhan 3), yn yr ail golofn—
 - (i) yn is-baragraff (1), yn lle “£36.20” a “£51.60” rhodder “£39.85” a “£56.80” yn y drefn honno;
 - (ii) yn is-baragraff (2), yn lle “£69.40”, yn y ddau le y mae’n digwydd, rhodder “£76.40” ac yn lle “£138.80” rhodder “£152.80”;
 - (iii) yn is-baragraff (3), yn lle “£68.04” rhodder “£74.69”;
 - (iv) yn is-baragraff (4), yn lle “£38.85” rhodder “£42.75”;
 - (v) yn is-baragraff (5), yn lle “£27.44”, “£17.75” a “£25.35” rhodder “£30.17”, “£19.55” a “£27.90” yn y drefn honno;
 - (e) yn Rhan 6 (symiau’r elfennau)—
 - (i) ym mharagraff 23, yn lle “£30.60” rhodder “£33.70”;
 - (ii) ym mharagraff 24, yn lle “£40.60” rhodder “£44.70”.
- (iii) in sub-paragraph (3), for “£128.95” substitute “£141.95”;
 - (b) in column (2) of the Table in paragraph 3(1) (child or young person amounts), for “£70.80”, in both places it occurs, substitute “£77.78”;
 - (c) in paragraph 4(1)(b) (family premium), for “£17.85” substitute “£18.53”;
 - (d) in the Table in Part 4 (amount of premiums specified in Part 3), in the second column—
 - (i) in sub-paragraph (1), for “£36.20” and “£51.60” substitute “£39.85” and “£56.80” respectively;
 - (ii) in sub-paragraph (2), for “£69.40”, in both places it occurs, substitute “£76.40” and for “£138.80” substitute “£152.80”;
 - (iii) in sub-paragraph (3), for “£68.04” substitute “£74.69”;
 - (iv) in sub-paragraph (4), for “£38.85” substitute “£42.75”;
 - (v) in sub-paragraph (5), for “£27.44”, “£17.75” and “£25.35” substitute “£30.17”, “£19.55” and “£27.90” respectively;
 - (e) in Part 6 (amount of components)—
 - (i) in paragraph 23, for “£30.60” substitute “£33.70”;
 - (ii) in paragraph 24, for “£40.60” substitute “£44.70”.

Rebecca Evans

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
18 Ionawr 2023

Minister for Finance and Local Government, one of
the Welsh Ministers
18 January 2023

©©Hawlfrant y Goron 2023

© Crown copyright 2023


Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty’s Stationery Office and King’s Printer of Acts of Parliament.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/47>

ISBN 978-0-348-39409-2



9 780348 394092